
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Adolygiad Blynyddol
2025-26

Mae gan Gymru'r dalent i ffynnu



# Blwyddyn y Gymdeithas

04

## Llywydd newydd

Cafodd yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens ei hethol eleni yn Llywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, wedi i dymor yr Athro Hywel Thomas ddod i ben.

06

## Creu cymuned

Mae ein Colocwiwm Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar yn dwyn ynghyd y goreuon o blith y talent ymchwil sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru.

08

## Datblygu talent

Mae ein grantiau, ein gwobrau a'n hyfforddiant yn gwneud gwahaniaeth i ymchwilwyr ym mhob cam o'u gyrfaoedd.

10

## Dathlu rhagoriaeth Cymru

Ein medalau a'n gwobrau newydd, yn dathlu rhagoriaeth yng Nghymru.

12

## Egwyddorion ar waith

Y camau rydyn ni wedi'u cymryd i hyrwyddo ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant.

14

## Planed iach, cymdeithas iach, Cymru iach

Cyflwyno tystiolaeth arbenigol i'r penderfyniadau a fydd yn llunio dyfodol pob un ohonom.




16

## Cymru sy'n ymgysylltu'n ddemocrataidd

Cynhaliom drafodaethau am ddyfodol ein cenedl mewn blwyddyn bwysig yng ngwleidyddiaeth Cymru.

17

## Yn eiriol dros ymchwil Cymru

Cyflwynwyd tystiolaeth gref gennym o blaid cefnogi sector ymchwil ac arloesi Cymru mewn cyd-destun heriol.

18

## Penblwydd hapus i ni!

Wrth ddathlu ein pymthegfed flwyddyn, edrychwyd ymlaen at ddyfodol Academi Genedlaethol Cymru, gyda'r Cymrawd Anrhydeddus newydd, Syr Bryn Terfel.

20

## Ein hôl troed byd-eang

Rydym yn cynrychioli Cymru yn y system ymchwil ryngwladol, ac yn cyrraedd pob rhan o'r byd drwy ein Cymrodoriaeth fyd-eang.

22

## Ein Cymrodyr newydd

Y 44 arweinydd o bob disgyblaeth a sector a etholwyd i ymuno â'r Gymrodoriaeth yn 2026.

24

## Gwneud i bethau ddigwydd

Ein Cyngor a'r pwyllgorau sy'n helpu i redeg y Gymdeithas a'i materion ariannol.

# Croeso'r Llywydd

Anrhydedd o'r mwyaf yw ysgrifennu fy nghyflwyniad cyntaf ar gyfer Adolygiad Blynyddol y Gymdeithas, fel ei Llywydd newydd a benywaidd cyntaf yn y rôl.

Mae'r ystod o waith rydym wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf yn dystiolaeth o'n gwerth fel academi genedlaethol Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru, yn enwedig, wneud defnydd o'r arbenigedd annibynnol sydd ar gael iddynt, a'i ddefnyddio i wella bywyd yng Nghymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Wrth gwrs, ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb gefnogaeth nifer o unigolion a sefydliadau: ein Cymrodyr, y mae eu hymgysylltiad yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn; Medr a phrifysgolion Cymru, sy'n darparu llawer o'n cyllid craidd; ac, yn arbennig, ein tîm o staff ymroddedig, dan arweiniad Olivia Harrison. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phob un ohonynt, ynghyd â'n nifer o bartneriaid eraill, wrth i ni dynnu sylw at sector ymchwil ac arloesi Cymru, a'r rôl hanfodol mae'n ei chwarae o ran gwneud ein bywyd gwyddonol, cymdeithasol a diwylliannol yn fwy bywiog, mwy cynaliadwy, mwy egnïol ac yn fwy uchelgeisiol.

### Llywydd newydd ar gyfer y Gymdeithas

Daeth yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens yn Llywydd benywaidd cyntaf y Gymdeithas, gan gamu mewn i'r rôl yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 20 Mai 2026.

Cafodd y Fonesig Elan ei geni yng Ngwynedd, ac mae hi'n un o'r gweision cyhoeddus mwyaf nodedig Cymru, gyda phrofiad helaeth ym maes y cyfryngau, gwleidyddiaeth ac addysg uwch. Ymhlith ei rolau niferus, ar hyn o bryd, mae hi'n Gomisiynydd Etholiadol Cymru, yn gyn-Gadeirydd dros dro y BBC rhwng 2023–2024, ac yn Athro Emerita mewn Cyfathrebu a Diwydiannau Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle bu hi hefyd yn Is-ganghellor.

Cymerodd y rôl drosodd gan yr Athro Hywel Thomas, a fu wrth y llyw am chwe blynedd. Arweiniodd Hywel ni drwy COVID, bu'n flaenllaw yn ein gwaith ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant, roedd yn ganolog i sefydlu ein Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar, ac fe ffurfiodd berthnasoedd pwysig gyda Medr, y Cynghreiriau Academïau Celtaidd ac aelodau o Lywodraeth Cymru.



**Cadwch mewn cysylltiad:**
tanysgrifiwch i'n cylchlythyr

# Croeso'r Prif Weithredwr



Mae'r Gymdeithas yn fwy prysur nag erioed — yn paratoi briffiau polisi, yn ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, yn rhoi momentwm newydd i'r maes Astudiaethau Cymreig, yn dyfarnu mwy o grantiau nag erioed, yn cryfhau partneriaethau gyda Medr, academïau Celtaidd eraill a'r Williamson Trust, ac yn ehangu ein rhaglen datblygu ymchwilwyr.

Mewn blwyddyn llawn uchafbwyntiau, yr uchafbwynt mwyaf cofiadwy oedd ein dathliadau pen-blwydd yn 15 oed yn y Senedd. Fe wnaethom groesawu ein Cymrawd Anrhydeddus newydd, Syr Bryn Terfel, ac roeddem yn ddigon ffodus i fwynhau perfformiad unigryw ganddo. Fe wnaeth trafodaeth banel ein hannog ni i fyfyrio nid yn unig ar ein 15 mlynedd cyntaf ond hefyd, ar sut y gallwn fod yn uchelgeisiol yn ein cynlluniau i helpu i siapio dyfodol Cymru.

Yn wir, rydym yn cael ein gyrru gan yr awydd i helpu dyfodol hirdymor Cymru. Ac ydy, mae dewis y bobl fwyaf talentog i fod yn rhan o'n Cymrodoriaeth a chefnogi ymchwilwyr gyrfa cynnar a chanol gyrfa—drwy grantiau, hyfforddiant ac adeiladu rhwydweithiau—yn rhoi hwb gwerthfawr i ni dros y tymor byr.

Ond rydym yn gwneud hyn hefyd gyda golwg ar adeiladu arweinwyr ac arbenigwyr ein dyfodol. Dyma'r bobl a fydd yn darparu tystiolaeth gadarn i'r Senedd i lunio'r polisïau sy'n penderfynu ar ddyfodol Cymru.

Er bod amseroedd yn heriol ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni gynnal ein hecosystem ymchwil ac arloesi, er mwyn sicrhau buddion economaidd a chymdeithasol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn dangos y rhan rydym yn ei chwarae yn yr ymdrech honno. Mae ein llwyddiant yn deillio o'r nifer fawr o Gymrodyr sy'n cydweithio gyda ni, a fy nhîm o staff am eu proffesiynoldeb a'u hymdrechion diflino.

Yn olaf, wrth i mi ddiolch unwaith eto i'r Athro Hywel Thomas, y mae ei chwe blynedd fel Llywydd y Gymdeithas wedi dod i ben, rwy'n falch iawn o weithio gyda'i olynydd, Y Fonesig Elan Closs Stephens. Mae ei neges, sef bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r profiad eang sydd o fewn y Gymdeithas Ddysgedig — yn un rydym i gyd yn cytuno ag ef ac yn ei gefnogi'n llwyr.

Hoffem ddiolch i Medr a'r naw prifysgol yng Nghymru. Mae eu cefnogaeth ariannol yn ffurfio ein prif incwm blynyddol, ynghyd â'r tanysgrifiadau gan ein Cymrodyr. Mae partneriaethau gyda'r Williamson Trust, Cymru Ystwyth a'r Academi Heddwch hefyd wedi ein galluogi i gyflawni prosiectau pwysig drwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn ddiolchgar i'n holl bartneriaid am eu cyfraniadau mewn nwyddau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant am eu cyfraniad hael o swyddfeydd y Gymdeithas.

# **Creu cymuned:** Colocwiwm Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar 2026

**Bydd ymchwilwyr gyrfa gynnar ledled Cymru gyfan yn elwa ar y cyfle i rwydweithio, ffurfio cysylltiadau rhyngddisgyblaethol a rhannu eu gwybodaeth yn ein colocwiwm blynyddol, a gynhaliwyd eleni ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r colocwiwm yn enghraifft berffaith o'r modd y mae ein Cymrodyr yn cyfrannu at ein gwaith: cadeirio sesiynau, cynghori, a chynnal y digwyddiad.**

## Dewrder wrth adeiladu gyrfa

Pa ran y mae chwilfrydedd, lwc dda, dewrder, ac ymreolaeth yn ei chwarae er mwyn saernïo llwybr gyrfa ymchwil? Os ydych chi'n mynd ar goll neu'n cymryd y troad anghywir, a yw hynny'n dal yn gallu ychwanegu gwerth at y daith? Rhannodd yr Athro Helen Roberts FLSW wersi gwerthfawr â'n rhwydwaith o egin-ymchwilwyr ynghylch sut y bydd gyrfaoedd yn aml yn gwyro oddi ar y llwybrau a ddychmygwyd.

## Datblygu sgiliau, datblygu gyrfaoedd

Sesiwn Academi Ifanc y DU ar sut y gall ymchwilwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa gymryd rhan a gwneud cais am aelodaeth.

Gweithdy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar sut y gall ei 'ffyrdd o weithio' ysgogi myfyrdod beirniadol ar ymarfer ymchwil.

Chwarae Difrifol LEGO® fel dull o ymgysylltu â phobl, annog gwahanol ffyrdd o feddwl, a galluogi gwahanol fathau o sgyrsiau.

## Cysylltu'r byd academaidd â'r byd go iawn

Mae angen i ymchwilwyr ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid allanol, nid yn unig i ddysgu a rhannu gwybodaeth, ond hefyd i feithrin ymddiriedaeth yn y sector ymchwil. Rhoddodd panel o arbenigwyr gyngor ar sut i ymgysylltu mewn modd teg ac ystyrlon y tu allan i'r sector prifysgolion.

## Dyfodol ymchwil Cymru

O ddiet dolffiniaid ym Mae Aberteifi, effaith deallusrwydd artiffisial ar ddyfodol y Gymraeg, i lygredd microplastigau, mae ymchwil o Gymru yn creu newid cadarnhaol ym mhob agwedd ar ein bywydau.

Cafodd ymchwilwyr gyfle i arddangos y gwaith hwn mewn cyflwyniadau cyflym ac ar bosteri yn y colocwiwm, gan ganiatáu sgyrsiau un wrth un i herio a datblygu eu syniadau, a chreu cyfle i ffurfio cysylltiadau ar draws sefydliadau a disgyblaethau. Enillodd Jianhao Yang y gystadleuaeth posteri am ei gyflwyniad ar arloesi amaeth-dechnolegol er mwyn datblygu systemau bwyd gwydn a chynaliadwy.

*"Lle diogel a chynhwysol i drafod ymchwil gydag ymchwilwyr o'r un anian."*

*"Mae wedi fy ngalluogi i weld lle ar gyfer fy ymchwil yng nghymuned ymchwil Cymru."*

*"Fel ymchwilydd gyrfa gynnar rwy'n teimlo wedi fy llethu, ac yn dioddef o syndrom ffugiwr. Mae dod i'r Colocwiwm yma wedi fy helpu i adeiladu fy hyder, ac wedi rhoi sicrwydd imi nad ydw i ar fy mhen fy hun ar y daith yma."*

*"Mae wedi bod yn anhygoel clywed am yr holl amrywiaeth o bynciau sy'n ein cysylltu ni i gyd."*

*"Mae pawb mor gefnogol."*







# Datblygu talent



## Meithrin doniau sy'n dod i'r amlwg...



### Hyfforddiant arbenigol

Rydym yn cynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i ddatblygu sgiliau hanfodol ar gyfer cenhedlaeth nesaf Cymru o ymchwilwyr, ar bynciau fel llywio cyd-destunau gwleidyddol datganoledig, cyd-gynhyrchu ymchwil, a chyhoeddi ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol.

### Cyllid ar gyfer cyfleoedd sy'n newid gyrfa

Mewn cyfnodau anodd, ni all llawer o ymchwilwyr gael mynediad at yr arian sydd ei angen i gefnogi datblygiad eu gyrfa. Diolch i roddion hael gan ein Cymrodyr, roedd modd i ymchwilwyr gyrfa gynnar greu cysylltiadau rhyngwladol a gwella eu proffiliau proffesiynol.

### Gwobr Hywel Thomas i Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar

Wedi'i henwi ar ôl ein Llywydd wrth iddo ymadael, mae'r wobr newydd hon yn nodi ei ymrwymiad i ddiwylliant ymchwil sy'n rhagorol, yn deg, yn gydweithredol, ac yn canolbwyntio ar bobl. Yr enillydd cyntaf oedd Dr Caitlyn Donaldson, i gydnabod ei gwaith mentora ac adeiladu cymuned.

### Cystadleuaeth traethawd tri munud

Digwyddiad eisteddfodol oedd dan ei sang, mewn cydweithrediad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Roedd yn herio ymchwilwyr i roi disgrifiad yn Gymraeg i'r cyhoedd o'u gwaith ymchwil cymhleth. Teleri Owen oedd yr enillydd, gyda'i chyflwyniad ar alluedd menywod yn ystod streic y Penrhyn.




## ...a'r ecosystem ymchwil ehangach.

### Lleisiau Dibynadwy i wrthweithio camwybodaeth

Mewn hinsawdd o gamwybodaeth, mae angen tystiolaeth ddibynadwy nawr yn fwy nag erioed. Mae ein partneriaeth newydd ag Ymddiriedolaeth Williamson yn cyllido cynhyrchwyr gwybodaeth i greu cynnwys dibynadwy mewn cydweithrediad â chymunedau lleol. Cadwch olwg am waith y garfan gyntaf ar goedwigoedd gwymon, treftadaeth bwyd, ansawdd dŵr ar gyfer nofwyr môr, a mwy.

### Gwneud Cymru yn lle gwych i fod yn ymchwilydd

Mae llawer o rwydweithiau a oedd yn greiddiol i gryfhau diwylliannau ymchwil ar lawr gwlad bellach heb gefnogaeth ac mewn perygl o gau. Mae pedwar grant ar ddeg, a ddyfarnwyd mewn partneriaeth â Medr, yn gweithio o'r gwaelod i fyny i feithrin cymunedau ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys ymchwilwyr canser, ymchwilwyr Du yn y sector gwirfoddol, a rhieni sy'n gweithio.

### Sbarduno arloesi a buddion i'r cyhoedd

Mae'r ecosystem ymchwil wedi'i hategu gan fannau i gysylltu a rhannu gwybodaeth. Yng Nghymru, rydym yn cefnogi ymchwilwyr ym mhob cyfnod o'u gyrfa i gynnal gweithgareddau sydd wedi'u teilwra i anghenion penodol eu cymunedau eu hunain, boed yn y sector animeiddio, ffiseg niwclear, ysgolion cynradd, carchardai, neu'r diwydiant ymwelwyr. Mae'r grantiau hyn yn creu cyfleoedd i arbenigwyr ddod at ynghyd i greu budd cyhoeddus, ac arloesi o'r newydd, yma yng Nghymru.

### Ffocws newydd: mynd i'r afael â'r bwlch canol gyrfa

Rydym yn mynd i'r afael ag anghenion penodol ymchwilwyr canol gyrfa drwy ehangu ein gwaith datblygu ymchwilwyr y tu hwnt i'r ffocws sefydledig ar ymchwilwyr gyrfa gynnar. Rydym yn lansio arolwg newydd, ac yn cefnogi Rhaglen Arweinyddiaeth Ymchwil Prifysgolion Cymru. Cadwch olwg am y fenter newydd gyffrous hon.

## O ganlyniad i grantiau'r llynedd...

***"Mae'r banc bwyd bellach yn cynnig cynnyrch ffres, ar sail 'dewis eich hun."***


***"Mae'r cyfleoedd, y profiad, a'r hyder a gefais drwy'r wobr hon wedi fy helpu i sicrhau rhagor o gyllid."***

***"Gallwn weld eisoes sut y bydd rhai o'r trafodaethau'n llunio ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf."***

***"Adroddodd cyfranogwyr eu bod wedi ailystyried eu rhagdybiaethau."***

***"Mae'r trafodaethau bwrdd crwn wedi sbarduno ymgysylltiad parhaus [gan gynnwys] papur gwyn polisi."***

***"Bu'r profiad yma'n allweddol yn fy natblygiad proffesiynol."***



# Ein medalau a'n gwobrau

Credwn y gallwn ni yng Nghymru wneud llawer mwy i gydnabod ein hymchwilwyr a'u gwaith. Dyna pam ein bod wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn adolygu ac yn ailgynllunio ein deuddeg o fedalau a gwobrau blynyddol newydd. Maent wedi'u henwi ar ôl ffigurau arloesol o orffennol Cymru a dyfernir chwech ohonynt bob blwyddyn. Byddant yn creu cyfleoedd newydd i ddathlu ymchwil a datblygiadau arloesol amrywiol ac anhygoel Cymru.



## Gwobrau effaith

Mae'r pedair gwobr effaith yn cydnabod pobl sy'n adeiladu'r sector ymchwil sydd ei angen ar Gymru: rhagorol, teg, cydweithredol ac effeithiol.



**Gwobr y Fonesig Rhondda:** i gydnabod cyflawniadau rhagorol gan unigolyn sy'n gweithio mewn unrhyw faes ymchwil neu arloesi.



**Gwobr Frances Batty Shand:** ar gyfer unigolyn neu dîm y mae ei effaith yn cael ei theimlo y tu hwnt i gwmpas ei waith neu ei ddisgyblaeth ei hun.



**Gwobr yr Athro Millicent Mackenzie:** ar gyfer tîm neu unigolyn â hanes rhagorol o ymgorffori ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei waith.



**Gwobr Aneurin Bevan:** am gydweithio ar draws timau neu sefydliadau.

## Medalau gyrfa sefydledig

Mae'r medalau hyn yn cydnabod y cyflawniad uchaf yng Nghymru, gan ddangos i'r byd fod gan Gymru y ddawn i ffynnu.



**Medal Gwen John** am gyfraniadau pwysig i'r dyniaethau a'r celfyddydau.



**Medal y Fonesig Megan Lloyd George** am gyfraniadau pwysig i'r gwyddorau cymdeithasol.



**Medal Alfred Russel Wallace** am gyfraniadau pwysig i'r biowyddorau a meddygaeth.



**Medal William Menelaus** am gyfraniadau pwysig i beirianneg, gwyddorau ffisegol a mathemateg.

## Medalau gyrfa gynnar

Wedi'u henwi ar ôl teulu o wyddonwyr, artistiaid a diwydianwyr ifanc o Gymru, mae Medalau Dillwyn yn dathlu ymchwilwyr sy'n dod i'r amlwg a fydd yn creu newid yfory.



**Medal Dillwyn** am y dyniaethau a'r celfyddydau.



**Medal Dillwyn** am y gwyddorau cymdeithasol.



**Medal Dillwyn** am y biowyddorau a meddygaeth.



**Medal Dillwyn** am beirianneg, y gwyddorau ffisegol a mathemateg.

Cyhoeddir enillwyr 2026 mewn seremoni wobrwyo ym mis Tachwedd.



# Cymdeithas ble gall pawb ffynnu

**Mae Emmanuel Ogbonna yn arbenigwr blaenllaw mewn diwylliant sefydliadol, ac yn canolbwyntio'n arbennig ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant (EDI) a gwrth-hiliaeth. Nawr mae'n defnyddio ei arbenigedd i gefnogi uchelgeisiau EDI y Gymdeithas.**

Mae Emmanuel Ogbonna, Athro Rheolaeth a Threfniadaeth yn Ysgol Busnes Caerdydd ac Is-gadeirydd Cyngor Hil Cymru, hefyd - ymhlith llawer o rolau eraill - yn un o'r brif bobl sy'n arwain grŵp cynghori ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant y Gymdeithas.

Roedd hefyd ymhlith y cyntaf o'r aelodau annibynnol i eistedd ar y pwyllgorau craffu sy'n ystyried enwebiadau ar gyfer Cymrodyr newydd y Gymdeithas. Mae'r aelodau annibynnol yn darparu trosolwg ac arbenigedd EDI, ac yn helpu'r pwyllgorau i wneud eu gwaith mewn ffordd deg, gyfartal ac agored.

*"Mae'r Gymdeithas yn falch o ymgorffori'r gwerthoedd gwrth-hiliaeth, ecwiti a chynhwysiant — ond mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n gweithredu yn unol â'r gwerthoedd rydym yn eu hyrwyddo,"* meddai. *"Un ffordd o wneud hynny yw sicrhau cysondeb ar draws y bwrdd. Mae'r pwyllgorau craffu yn ein galluogi i wneud hynny."*

Mae Emmanuel yn dadlau bod mynd i'r afael â gwahaniaethu yn golygu cymryd camau gweithredol fel hyn. Mae'n ddyletswydd ar sefydliadau i ddangos i bobl sydd efallai'n teimlo eu bod ar yr ymylon eu bod yn cael croeso.

*"Y broblem i grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yw eu bod yn aml yn meddwl na fyddant yn cael eu derbyn,"* meddai. *"Mae angen i ni wneud mwy i ddangos bod sut rydym yn edrych o'r tu allan a sut rydym yn edrych o'r tu mewn yn ddau beth gwahanol."*

*"Os fyddwch yn dod i mewn i'r Gymdeithas ac yn gweld beth rydym yn ei wneud, fe welwch fod gennym amrywiaeth o bobl o ystod eang o ddisgyblaethau — nid yn unig o fewn y byd academaidd, ond y tu allan iddo hefyd."*

Mae Emmanuel yn siarad o sefyllfa o brofiad eithriadol. Yn ogystal â'i yrfa academaidd nodedig, mae'n Is-gadeirydd Cyngor Hil Cymru, yn gyn-Gadeirydd ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, ac fe gafodd CBE yn 2024 am ei wasanaeth i bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac i wrth-hiliaeth. Serch hynny, er gwaethaf hyn oll, roedd hyd yn oed ef ei hun yn amau ar y dechrau a oedd lle iddo o fewn Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

*"Ni fyddai Emmanuel Ogbonna yn 13 oed — na hyd yn oed Emmanuel Ogbonna yn 25 oed a oedd newydd gwblhau ei PhD — erioed wedi dychmygu bod yn Gymrawd. Er fy mod yng Nghaerdydd ac wedi gwneud fy PhD yma, roeddwn yn meddwl mai dim ond i bobl o Gymru oedd o, pobl a allai olrhain eu hachau i Gymru. Roeddwn yn meddwl mai dim ond i bobl wyn o Gymru oedd o."*

Fodd bynnag, meddai, mae pethau wedi newid.

*"Ni fyddai Ogbonna yn ei flynyddoedd cynnar wedi meddwl ei bod yn bosibl, ond wrth i mi ddysgu mwy am y Gymdeithas ac wrth i'r Gymdeithas wneud mwy o ymdrech i estyn allan at bobl fel fi, mae bellach yn bosibilrwydd y gallai Ogbonna heddiw, sydd yn 25 oed, anelu at fod yn Gymrawd o'r Gymdeithas."*



***"Mae'r Gymdeithas yn falch o ymgorffori'r gwerthoedd gwrth-hiliaeth, ecwiti a chynhwysiant"***

Rydym yn falch o fod yn rhan o wlad sydd wedi ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol yn ei fframwaith polisi, gyda datganiad clir o'i huchelgais i fod yn wrth-hiliol. Rydym yn rhannu'r gwerthoedd hynny ac yn gweithredu gydag ymrwymiad dwfn iawn tuag at ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Ein hegwyddorion

Un o'r meysydd lle credwn y gallwn ddangos orau ein hymrwymiad i ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant yw drwy sicrhau bod ein Cymrodoriaeth yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn well. Bu cynnydd calonogol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda menywod i gyfrif am fwy na 50% o Gymrodyr newydd yn 2026, a thros chwarter y Cymrodyr a etholwyd yn 2024 a 2025 yn nodi eu bod o gefndir lleiafrifol ethnig. Er hynny, rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud, a dyna pam rydym hefyd yn adolygu'r broses gyfan i nodi a chael gwared â rhwystrau.

## Menter Athrawon Prifysgol Lleiafrifoedd Ethnig Cymreig (WEMPI)

Mae WEMPI yn cynnig cefnogaeth a mentora gan gymheiriaid i staff academaidd o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, er mwyn iddynt allu bod yn esiamplau gweladwy i fyfyrwyr ac ymchwilwyr ifanc. Roedd ein Cymrodyr yn greiddiol i lansiad y grŵp, ac mae'r Gymdeithas wedi cefnogi WEMPI ers iddi gael ei sefydlu.

## Rhwydwaith Menywod Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Cynhaliodd ein Rhwydwaith Menywod newydd ei gyfarfod cyntaf yn Aberystwyth ym mis Mehefin. Pwrpas y gymuned hon yw rhoi cyfle i fenywod a'u cynghreiriaid o fewn ein Cymrodoriaeth gael dod ynghyd i gael cefnogaeth gan gymheiriaid ac i fentora'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr.

## Rhagfarn rhywedd mewn penderfyniadau cyllido

Buom yn gweithio gyda'r Rhwydwaith GRYMUSO ar ddigwyddiad a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd amrywiaeth rhywedd mewn penderfyniadau cyllido ymchwil, gyda chyflwyniad gan EPSRC ar ystadegau rhywedd o'u portffolio o'i bortffolio cyllido.

## Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Ymchwil ar draws Ewrop


Dewiswyd yr Athro Roiyah Saltus gan Ffederasiwn Academïau Ewrop (ALLEA) i gynrychioli'r Gymdeithas ar dasglu traws-Ewropeaidd sy'n gweithio i wella ecwiti a thryloywder mewn sefydliadau academaidd Ewropeaidd.

### Ein cynlluniau grant a wnaeth hyn yn bosibl...

Mae Ysgrifennwch Nawr! yn rhoi cyfle i academyddion benywaidd sydd â dyletswyddau gofalu gael ysgrifennu yn ystod y dydd, gan olygu nad oes rhaid iddynt lenwi eu nosweithiau a'u penwythnosau â gwaith academaidd (Prifysgol Bangor).



# Planed iach, cymdeithas iach, **Cymru iach**




## Planed iach

Mae ymdrechion i olrhain a lliniaru newid hinsawdd a achosir gan ddyn yn creu goblygiadau sylweddol o ran polisi ac yn ffocws ymchwil o bwys mawr mewn sefydliadau ledled Cymru.

Rydym ninnau wedi chwarae ein rhan drwy ein fforwm arbenigol a'r adroddiad cysylltiedig ar fesur bioamrywiaeth yng Nghymru. Bu arbenigwyr blaenllaw yn ystyried sut i wella'r **ffordd rydym yn mesur bioamrywiaeth yng Nghymru**, a darparu'r data angenrheidiol i lunwyr polisi. Argymhellai'r adroddiad fod angen alinio gwell rhwng y sector statudol, gwyddonwyr prifysgol, cyrff ymchwil, elusennau a dinesydd-wyddonwyr. Gallai hyn arwain at un pwynt mynediad at ddata i gyrff sy'n gwneud penderfyniadau, fel pwyllgorau craffu'r Senedd.

Daeth **Cyfarfod Gwyddor Planhigion Cymru** â chymuned gwyddor planhigion Cymru ynghyd yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Y nod oedd creu amgylchedd cynhwysol a chyfeillgar i fyfyrwyr doethuriaeth, ar gyfer gwyddonwyr planhigion sy'n gweithio mewn meysydd sylfaenol a chymhwysol. Fe'i trefnwyd, gyda chefnogaeth gennym ni, gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig.

Wrth archwilio'r defnydd o ynni, rhoesom gefnogaeth i ddarlith flynyddol Zienkiewicz yn Abertawe, lle rhoddodd yr Athro Syr Ian Chapman, Prif Weithredwr UKRI, gyflwyniad ar **Raglen ymasiad y DU**, tra traddododd yr Athro Gareth Wyn Jones FLSW ein darlith Eisteddfodol ar y testun **'Penbleth ynni: blaenoriaethau sy'n gwrthdaro'**.

> Gwnaed hyn yn bosibl drwy ein cynllun grant Lleisiau Dibynadwy...
>
> **Llannerch Ynni Gwyrdd newydd yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd**
>
> Bydd arbenigwyr hinsawdd yn creu'r 'Llannerch Ynni Gwyrdd' yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd, gan wahodd ymwelwyr â'r Ŵyl i ddeall newid hinsawdd.

## Cymdeithas iach



Gan weithio gyda phartneriaid o bob cwr o'r DU, cyhoeddwyd briff gennym ar **drawsnewid dulliau o ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**. Dangosai sut y gall y celfyddydau a'r dyniaethau ein helpu i ddeall yr hyn sy'n bwysig i oroeswyr, a sut y gall ymchwil ein helpu i ddeall pa ymyriadau sy'n gweithio.

Mewn partneriaeth ag Academi Heddwch Cymru, mae ein **rhaglen grant 'llwybrau i heddwch'** yn ymateb i'r cyfnod heriol sydd o'n blaen ar hyn o bryd, ac yn adlewyrchu'r ymwybyddiaeth bod ystyr ehangach i 'heddwch' na pheidio mynd i ryfel.

> Ein cynlluniau grant a wnaeth hyn yn bosibl...
>
> **Mesur effaith casineb ar-lein**
>
> Drwy ddadansoddi iaith wenwynig a mesur ymatebion i straen, mae'r prosiect hwn yn hyrwyddo empathi ac yn cefnogi dulliau o gyfathrebu ar-lein sy'n dangos parch.

## Cymru Iach

Buom yn cefnogi'r Cymrodyr i gynnal cyfarfod bwrdd crwn ar y **Gwasanaeth 'NHS 111 pwyso 2'**, gan archwilio sut y caiff ei werthuso fel model ar gyfer gofal iechyd meddwl yng Nghymru yn y dyfodol. Drwy ein cynllun grant, llwyddwyd hefyd i gynnal darlith ar **wastraff ymchwil mewn meddygaeth glinigol** a'r rhan y gall clinigwyr, nyrsys, methodolegwyr a chleifion ei chwarae er mwyn lleihau'r gwastraff hwnnw.

Dangosodd **fforwm polisi ar Iechyd a Llesiant Pobl Fyddar yng Nghymru** sut y cyfrannodd ymchwil i'r celfyddydau a'r dyniaethau at Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain hanesyddol yng Nghymru – gan gynnwys un o'n grantiau gweithdy ymchwil. Trefnwyd y digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor ar y cyd â Iechyd Byddar Cymru, artistiaid ac ymgyrchwyr o'r gymuned Fyddar, Cynghrair Celfyddydau a Dyniaethau Cymru a'r Ysgol Astudiaethau Uwch.

> Ein cynlluniau grant a wnaeth hyn yn bosibl...
>
> **Partneriaethau traws-sector i fynd i'r afael ag endometriosis**
>
> Nodi blaenoriaethau ymchwil ac agendâu cyffredin rhwng ymchwilwyr, byrddau iechyd lleol, y trydydd sector, ac arbenigwyr profiad byw, er mwyn gwella gofal a llesiant cleifion sy'n profi endometriosis.



# Cymru sy’n ymgysylltu’n ddemocrataidd

Roedd etholiadau’r Senedd eleni yn foment nodedig ym mywyd gwleidyddol Cymru, gan sbarduno dadleuon pwysig am y broses ddatganoli wrth iddi aeddfedu ac ymdeimlad Cymru o’i hunaniaeth fel endid gwleidyddol. Gwnaethom gymryd rhan yn llawn yn y dadleuon hynny.

## Hustyngau etholiadol

Yn yr wythnosau cyn etholiadau’r Senedd cynhaliom ddau ddigwyddiad hustyng ar-lein. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o’r prif bleidiau i drafod eu cynigion ar gyfer STEMM a diwylliant, mewn partneriaeth â sefydliadau gwyddonol a diwylliannol blaenllaw ledled Cymru a’r DU.

## Cymru yn Pleidleisio: dadansoddi canlyniadau’r Senedd

Rhannodd yr Athro Laura McAllister FLSW, yr Athro Stephen Cushion FLSW, a Dr Bettina Petersohn eu dadansoddiad yn sgil etholiadau’r Senedd. O dan faner Astudiaethau Cymreig, roedd y drafodaeth banel yn ymdrin â’r modd yr adroddwyd am yr etholiad yn y cyfryngau, y data pleidleisio, a’r hyn i ddisgwyl yn y cyd-destun gwleidyddol newydd hwn.

## Gallu Datganoli

Sut y gall ymchwilwyr gynyddu  effaith eu gwaith hyd yr eithaf ar draws tirluniau gwleidyddol amrywiol? Yn y weminar hwn ar gyfer ymchwilwyr gyrfa gynnar, a gynhaliwyd ar y cyd â Chymdeithas Ymchwil Addysgol yr Alban, rhoddwyd trosolwg manwl o’r heriau a chyfleoedd wrth weithio gyda llywodraethau datganoledig.





# Ymchwil ac arloesi ar gyfer Cymru sy’n tyfu

## Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru

Rhaid i Gymru wneud gwell defnydd o’r ymchwil a’r datblygiadau arloesol o’r radd flaenaf yn ei sefydliadau addysg uwch, a chydnabod mai buddsoddiad yn hytrach na chost yw cyllido ymchwil. Dyma oedd y neges o’n hymateb i alwad Llywodraeth Cymru am sylwadau ynghylch dyfodol addysg drydyddol, a datganiad cyhoeddus a wnaed gan ein Llywydd, y Fonesig Elan Closs Stephens.

## Eirioli dros Ymchwil Cymru

Rydym yn creu cysylltiadau i sicrhau dealltwriaeth eang o’r cynnydd, y blaenoriaethau a’r heriau o flaen ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

**Cymru yn San Steffan:** yn Nhŷ’r Arglwyddi gwnaethom dynnu sylw at gymunedau yng Nghymru sydd wedi elwa ar ymchwil Gymreig, o ffermwyr yng Ngorllewin Cymru i bobl ifanc yn Grangetown, a chefnogwyr pêl-droed yn Wrecsam. Cafodd yr unigolion dylanwadol a oedd yn bresennol ddysgu sut mae ymchwil Gymreig yn gwella bywydau pobl ledled Cymru.

**‘Creu Cysylltiadau’:** mewn trafodaeth ar y cyd â’r Gymdeithas Frenhinol trafodwyd cyfleoedd a heriau’n gysylltiedig â sgiliau gwyddonol yng Nghymru.


**Yn ôl i Erasmus:** datganiad yn croesawu’r penderfyniad i ailymuno â’r cynllun, ynghyd â’r manteision i staff, myfyrwyr a Chymru yn sgil cryfhau cysylltiadau rhyngwladol.

**Map trywydd ymchwil ac arloesi:** trafodaeth ar y cyd a gynhaliwyd ag UKRI, yn rhoi persbectif Cymreig ar gynnydd a chyfleoedd yng nghynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer ymchwil ac arloesi.

**Mentro a buddsoddi yng Nghymru:** sesiwn a gynhaliwyd ar y cyd â’r Cymmrodorion yng Nghanolfan Cymry Llundain ar gyflawni’r twf economaidd sydd ei angen er ffyniant cymunedol a chydlyniant cymdeithasol.

**Darllenwch ein sylwadau’n llawn**

**Mae ein holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan**



***“Rwy’n galw ar y Llywodraeth newydd i ddeall yr adnoddau sydd ganddi yn y Gymdeithas Ddysgedig ac i fanteisio ar yr arbenigedd annibynnol sydd ar gael iddi.”***

**Yr Athro a’r Fonesig Elan Closs Stephens**

# **Dathlu 15 mlynedd**, dathlu gwybodaeth

Cafwyd noson fywiog yn y Senedd i ddathlu ein pen-blwydd yn 15 oed. Roedd yn cynnwys trafodaeth banel ddifyr, myfyrdodau ar ddyfodol y Gymdeithas, a pherfformiad cofiadwy gan ein Cymrawd Anrhydeddus newydd a'r cawr o fyd yr opera, Syr Bryn Terfel.

***"Yr hyn y mae pobl yn y Gymdeithas Ddysgedig yn ei roi ichi yw eglurhad, y gallu i ddefnyddio eu harbenigedd a throsi hynny'n dermau i ehangu dealltwriaeth y rheiny na fydd fyth yn gwybod popeth y mae'r arbenigwyr yn ei wybod."***

**Mark Drakeford,** cyn Brif Weinidog Cymru

***"Rydyn ni i gyd yn gwybod yr heriau sydd o flaen Cymru, a'r hyn sy'n wych am Gymdeithas Ddysgedig Cymru yw … bod gennych chi'r syniadau gorau yng Nghymru."***

**Will Hayward,** newyddiadurwr



***"Rwy'n credu bod y Gymdeithas hon yn adnodd cenedlaethol arbennig iawn."***

**Dr Manon Antoniazzi FLSW**, Senedd Cymru

***"Yn yr oes o dwyllwybodaeth sydd ohoni, mae angen inni godi ein lleisiau'n uwch nag erioed ynghylch pwysigrwydd tystiolaeth."***

**Yr Athro Hywel Thomas FLSW**

***"Rydyn ni yma mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid yng Nghymru, i ddathlu Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac i feddwl sut ddyfodol a all fod o'n blaen. "***

**Yr Athro Karen Salt,** Ymddiriedolaeth Williamson

***"Heno, mae Cymru wedi gallu dathlu nid yn unig yr hyn y mae wedi'i wneud, ond yr hyn y mae yn ei wneud, gan edrych tua'r dyfodol yn llawn positifrwydd."***

**Y Farwnes Ilora Finley FLSW**



## Trafodaeth banel: **'Dyfodol gwybodaeth: 15 mlynedd o'r Gymdeithas'**

Bu panel nodedig yn trafod rôl academïau cenedlaethol a pham mae ar Gymru angen ei hacademi ei hun. Trafodwyd ystod eang o bynciau, o sut i wneud bywyd deallusol Cymru mor gynhwysol â phosibl, i bwysigrwydd mynd i'r afael â thwyllwybodaeth a chryfhau lleisiau dibynadwy.



# Gwybodaeth ar draws ffiniau

Rydym yn eiriol dros Gymru, ac effaith ei hymchwil, y tu hwnt i'n ffiniau ein hunain. I'n helpu i wneud hynny, rydym yn mynd ati'n ddiwyd i feithrin cysylltiadau y tu allan i Gymru, ac yn elwa ar Gymrodoriaeth fyd-eang.

## Gweithio gyda'n partneriaid Celtaidd

Cafodd Cynghrair yr Academïau Celtaidd ei ffurfioli ar ôl i Academi Frenhinol Iwerddon, Academi Frenhinol Caeredin a ninnau lofnodi cytundeb partneriaeth arwyddocaol yng Nghaerdydd. Mae'r blaenoriaethau cychwynnol yn cynnwys arloesi rhanbarthol, polisi ymchwil, ac ymgorffori ymchwil mewn cymunedau lleol.

Daeth Cynghrair yr Academïau Celtaidd ag arbenigwyr blaenllaw mewn ieithoedd Celtaidd, ieithoedd byd-eang, anabledd ac iaith arwyddion ynghyd mewn symposiwm rhyngwladol yn Wrecsam. Drwy'r digwyddiad datgelwyd pwrpas cyffredin o ran cael gwared â rhwystrau systemig a diwylliannol i amlieithrwydd.


## Cysylltu Cymru ac Iwerddon drwy ymchwil

Fel rhan o'i ymweliad â Dulyn, sef ei ymweliad swyddogol cyntaf â gwlad dramor, cyhoeddodd y Prif Weinidog Rhun ap Iorwerth gynllun cyllido newydd i ymchwilwyr gyrfa gynnar er mwyn iddynt gael mynediad at offer a datblygu prosiectau Cymru-Iwerddon. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, gan adlewyrchu rhaglen Charlemont Academi Frenhinol Iwerddon.

## Gweithio gyda'n cynghreiriaid Ewropeaidd

Rydym yn gyfranogwyr gweithredol yn ALLEA, ffederasiwn academïau cenedlaethol Ewrop. Mae ein Cymrodyr yn eistedd ar Gyngor Moeseg ac Uniondeb Ymchwil ALLEA, yn ogystal â thasgluoedd ar ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant mewn ymchwil, gan gryfhau ymddiriedaeth mewn gwyddoniaeth, a diogelu a rhannu data. Byddant yn sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed, a'n harbenigedd yn cael ei gydnabod, yn y fforymau rhyngwladol pwysig hyn.





## Ble mae ein Cymrodyr wedi'u lleoli?

Mae ein diaspora o Gymrodyr yn helaeth. Dyma lle mae olion traed ymchwil Cymru wedi cyrraedd...

- **UDA**
- **Yr Alban**
- **Awstralia**
- **Lloegr**
- **Iwerddon**
- **Y Swistir**
- **Yr Almaen**
- **Canada**
- **Y Ffindir**
- **Hong Kong**
- **Lwcsembwrg**
- **Seland Newydd**
- **Gogledd Iwerddon**
- **Yr Emiradau Arabaidd Unedig**

## Rhwydwaith yr Astudiaethau Cymreig

Mae sefydlu ein Rhwydwaith Astudiaethau Cymreig eleni yn foment bwysig i'r maes ac fel rhan o ymdrechion i godi proffil rhyngwladol Cymru. Bydd y Rhwydwaith yn dwyn ynghyd ymchwilwyr sy'n archwilio nodweddion diwylliannol, cymdeithasol a ffisegol Cymru ar y sail bod angen inni wybod am Gymru yn gyntaf, er mwyn ei hyrwyddo mewn cyd-destun byd-eang.

Y grantiau rydyn ni'n eu rhoi...

**Hanes cysylltiadau Cymru-Asia: ffynonellau a safbwyntiau newydd**

Hanesion cudd am gysylltiadau Cymru-Asia yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.

Y grantiau rydyn ni'n eu rhoi...

**Athronwyr Ffrengig a Ffrangeg eu hiaith a datblygiad mudiadau LHDTCRhA+**

Prosiect cydweithredol yn cynnwys ysgolheigion, artistiaid ac ymgyrchwyr.

Y grantiau rydyn ni'n eu rhoi...

**Ailymweld â'r Wladfa: dyfodol cydweithredol yn astudiaethau Patagonia Cymru**

Yn dod ag ymchwilwyr, Llywodraeth Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ynghyd i archwilio cysylltiadau Cymru a Patagonia.

Y grantiau rydyn ni'n eu rhoi...

**Mannau darfodedig ac sy'n dod i'r amlwg: brwydrau tir y Palestiniaid a'r Guarani**

Hanesion tebyg o erledigaeth, dadleoli a gwrthsefyll.

# Cymrodyr a etholwyd yn 2026

**Yr Athro Colin Berry**
Athro Emeritws mewn Biocemeg, Prifysgol Caerdydd

**Dr Carmen Casaliggi**
Darllenydd yn Saesneg, Phrifysgol Metropolitan Caerdydd

**Christopher Catling**
Prif Weithredwr, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**Yr Athro Simon Creer**
Athro mewn Ecoleg Foleciwlaidd, Prifysgol Bangor

**Claire Curneen**
Celfyddydwr; Uwch Ddarlithydd, Phrifysgol Metropolitan Caerdydd

**Yr Athro Stephen Cushion**
Athro yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol Caerdydd

**Dr Sonali Dasgupta**
Ymgynghorydd Oncoleg Meddygol, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

**Yr Athro Alexander Giles Davies**
Athro mewn Peirianneg Electronig a Ffotonig, Prifysgol Leeds

**Yr Athro Anne Davies**
Athro Gyfraith a Pholisi Cyhoeddus, Prifysgol Rhydychen

**Yr Athro Sarah Davies**
Yr Athro Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Elwen Evans**
Is-Ganghellor, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Yr Athro Leighton Evans**
Athro Theori'r Cyfryngau, Prifysgol Abertawe

**Dr Wendy Ewart**
Ymgynghorydd Annibynnol mewn Gwyddoniaeth Fiofeddygol

**Yr Athro Åke Fagereng**
Athro mewn Daeareg Strwythurol, Prifysgol Caerdydd

**Dr Eleanor Anne Freeman**
Cyd-sylfaenydd a chyd-arweinydd Hwb Strôc Cymru

**Yr Athro Helena Gaunt**
Prifathro, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

**Yr Athro Cinzia Giannetti**
Athro mewn Gweithgynhyrchu Digidol, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Jonathan Gillard**
Athro Ystadegau a Gwyddor Data, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Adam Hedgecoe**
Athro Cymdeithaseg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Mary Heimann**
Cadair mewn Hanes Modern, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Judy Hutchings**
Athro mewn Seicoleg, Prifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Yr Athro Sharon Huws**
Athro mewn Gwyddor Anifeiliaid a Microbioleg, Prifysgol y Frenhines, Béal Feirste

**Yr Athro D. Dafydd Jones**
Cadair mewn Biocemeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Melanie Jones**
Athro Economeg, Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Graham John Langley**
Athro Emeritws, Prifysgol Southampton

**Ben Lewis**
Cyfarwyddwr Prifysgol Agored yng Nghymru

**Dr Iwan Llewelyn-Jones**
Uwch Ddarlithydd a Chyfarwyddwr Perfformio Cerddorol, Prifysgol Bangor

**Yr Athro Neil Loader**
Athro Daearyddiaeth Ffisegol, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Apala Majumdar**
Athro Mathemateg Gymhwysol, Prifysgol Manceinion

**Dr Emma McKinley**
Uwch Gymrawd Ymchwil, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Peter Merriman**
Athro mewn Daearyddiaeth Ddynol, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Daniel Roy Parsons**
Athro Gwyddorau Daear, Prifysgol Loughborough

**Dr Claire Price**
Uwch-ddarlithydd mewn Gwyddorau Biofeddygol, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Iain Quinn**
Athro'r Organ a Chydlynydd Cerddoriaeth Gysegredig, Prifysgol Gwlad Florida

**Yr Athro Charlotte Rees**
Dirprwy Is-Ganghellor a Ddeon Gweithredol, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Yacine Rezgui,**
Athro ac Arweinydd Canolfan Ymchwil Cudd-wybodaeth Drefol, Prifysgol Caerdydd; Optimise-AI

**Dr Kathy Seddon**
Partner Ymchwil Canser Cymru, Prifysgol Caerdydd a Chwumni Anrhydeddus Lifrai Cymru

**Dr Sara Shinton**
Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Datblygu Cymrodyr Arweinwyr y Dyfodol UKRI

**Yr Athro Phil Smith**
Niwrolegydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Richard Thomas**
Pennaeth Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu, Prifysgol Abertawe

**Professor Marianne van den Bree**
Athro Meddygaeth Seicolegol, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Yingli Wang**
Athro mewn logisteg a rheoli gweithrediadau, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Yvonne Wren**
Athro Therapi Iaith a Lleferydd, Phrifysgol Metropolitan Caerdydd

**Yr Athro Peng Zhou**
Athro Economeg, Prifysgol Caerdydd



# Swyddogion a'r Cyngor

Cafodd y Gymdeithas ei hymgorffori fel Elusen Siarter Frenhinol yn 2015 (Rhif Elusen Gofrestredig: 1168622). Ein dogfennau llywodraethu presennol yw'r Siarter Frenhinol ac Is-ddeddfau. Mae'r rhain, ynghyd â Rheoliadau'r Gymdeithas, yn cyfansoddi ein hofferynnau llywodraethu.


### Llywydd

**Yr Athro Hywel Thomas**
(tan fis Mai 2026)

**Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens** (o fis Mai 2026)

### Is-lywyddion

**Yr Athro Robert Beynon**
(Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth)

**Yr Athro Helen Fulton**
(Dyniaethau, Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol) (tan fis Mai 2026)

**Yr Athro Sara Elin Roberts**
(Dyniaethau, Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol) (o fis Mai 2026)

### Trysorydd

**Sarah Jane Clyburn**
(Dr Sally Davies)

### Ygrifennydd Cyffredinol

**Yr Athro Faron Moller**

### Aelodau'r Cyngor

Yn ychwanegol at y Swyddogion, ffurfiodd y Cymrodyr canlynol Gyngor y Gymdeithas (bwrdd yr ymddiriedolwyr):

**Yr Athro Pedr ap Llwyd**

**Yr Athro Rachel Ashworth**

**Yr Athro Kirsti Bohata**

**Yr Athro  David Boucher**

**Yr Athro Angharad Davies**
(o fis Mai 2026)

**Yr Athro Mererid Puw Davies**

**Yr Athro Michael C Davies**
(o fis Mai 2026)

**Yr Athro Siwan Davies**

**Yr Athro Claire Gorrara**
(tan fis Mai 2026)

**Yr Athro Matthew Griffin**
(o fis Mai 2026)

**Yr Athro Alma Harris**
(tan fis Mai 2026)

**Yr Athro Syr Deian Hopkin**

**Yr Athro Venkateswarlu Kanamarlapudi**
(o fis May 2026)

**Yr Athro Ambreena Manji**

**Yr Athro Raluca Radulescu**

**Yr Athro Michael Reed**
(o fis Mai 2026)

**Yr Athro Qiang Shen**
(tan fis Mai 2026)

**Yr Athro Elizabeth Treasure**

**Yr Athro John V Tucker**
(tan fis Mai 2026)

**Yr Athro Meena Upadhyaya**
(tan fis May 2026)

**Yr Athro Karin Wahl-Jorgensen**


Mae gwaith y Cyngor wrth lywodraethu'r Gymdeithas a chynnig trosolwg strategol yn cael ei gefnogi gan yr amryw o Gymrodyr sydd hefyd yn gwasanaethu ar ein Pwyllgorau llywodraethu a chraffu niferus, Grwpiau Cynghori a Grwpiau Cwblhau.

## Adolygiad ariannol

Bydd ffigurau ariannol 2025-26 yn cael eu cyhoeddi erbyn 30 Ebrill 2027 yn Adroddiad Blynyddol y Gymdeithas ar gyfer y Comisiwn Elusennau. Bydd hwn ar gael ar ein gwefan. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **cddc@cymru.ac.uk**

### Ein cyllid 2025-26

